**ARGYMHELLION PWYLLGOR DIGWYDDIADAU A GYNHALIWYD AR 5 AWST 2025**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Troy Maclean

David Meirion Jones

Morwenna Pugh

Peter Jones

Marc Lloyd Griffiths

Sioned Graham-Cameron, Clerc

Cynigiodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh ac eiliodd Y Cynghorydd Peter Jones bod Y Cynghorydd Troy Maclean yn cael ei benodi fel Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn a chytunodd pawb.

**1. Ymddiheuriadau**

Cafwydd ymddiheuriad am absenoldeb gan Ellen Pugh, Dirprwy Glerc.

**2. Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw fuddiannau i'w datgan.

**3. Hwyl yn y Parc 2025**

Dywedwyd y byddai cyfeiriad WhatThreeWords yn cael ei anfon at gyflenwyr y portaloos. Dywedodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh y byddai'n holi'r Ganolfan i gael benthyg byrddau. Dywedodd y Clerc y byddai'n gwirio gyda Neuadd Llan y byddai'r cadeiriau ar gael i'w casglu. Dywedodd hefyd y byddai'n holi Catrin O'Neill beth roedd ei angen o ran cyfarpar. Byddai angen posteri yn gofyn i drigolion beidio parcio ar y llecyn tarmac. Hefyd, cael caadarnhad gan yr ysgol bod y Cyngor Tref yn cael defnyddio'r tir ar gyfer y dawnswyr Morris. Fel Cynllun B, gellid defnyddio'r Parc a byddai angen archebu portaloos ychwanegol. Angen cadarnhau gyda Penrhyn Tools pryd y byddent yn dod a'r offer a'r ffensys.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.15pm

DRAFT